Profion Iechyd ar Gael

Gwasanaeth Allgymorth Gwledig Ynys Môn

- Eisiau gwybod mwy am iechyd meddwl a lles?
- Angen cefnogaeth a chyngor cyfrinachol i chi'ch hun neu rywun arall?
- Ydych chi, neu a wyddoch chi am rywun sy'n ddigartref, yn cysgu o soffa i soffa neu mewn cartref bregus?

Mae Mind Ynys Môn, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig gwasanaeth allgymorth gwledig i ardal Ynys Môn. Bydd bws arbennig yn teithio o amgylch Ynys Môn am wythnos o bob mis yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth breifat a chyfrinachol am Iechyd Meddwl a Lles.

Bydd Nyrs Gofrestredig yno ar ddydd Llun a dydd Iau i gynnig profion iechyd a chefnogaeth i rai digartref, sy'n cysgu ar soffa neu mewn cartref bregus.

Dewch i ddal y bws ar y dyddiau a'r amseroedd isod, croeso i bawb:

Dydd Llun, 20 a dydd Iau, 23 Tachwedd

	Amseroedd bras
Maes Parcio Sant Cybi, Caergybi	9.15am – 10.15am
Tref Amlwch, ger y Llyfrgell	11am – 12.30pm (dydd Iau yn unig)
Porthladd Amlwch	12.45pm – 13.30pm (dydd Iau yn unig)
Gwarchodfa Natur Penrhos	2.15pm – 3pm
Stad Treseifion, Caergybi	3.15pm – 3.45pm

Dydd Llun, 20 Tachwedd 11am – 1.30pm Safle'r Teithwyr ger Pentraeth.